MATERION SGILIAU DYFODOL SYDD YN EFFEITHIO AR SECTORAU DIWYDIANNOL YNG NGHYMRU

Y Sector Gofal Cymdeithasol

Sgiliaudyfodol Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres a gomisiynwyd gan Fforwm Ymchwil Cymru i Sgiliau'r Dyfodol. Bwriad cyffredinol y prosiect yw ymestyn ac ategu'r gwaith a ddechreuwyd gan brosiect gwreiddiol Sgiliau'r Dyfodol Cymru, oedd yn defnyddio data arolygon a rhagolygon i ragweld beth oedd yr anghenion cyffredinol yng Nghymru. Mae'r prosiect presennol yn ychwanegu astudiaethau o'r angen am sgiliau galwedigaethol yn y dyfodol o fewn sectorau allweddol yng Nghymru. Mae pob astudiaeth sector yn seiliedig ar ymchwil ddesg a chyfweliadau ansoddol gydag ymarferwyr a chyflogwyr, a bwriad pob astudiaeth yw darparu braslun o'r sector, y materion sy'n ymwneud â sgiliau a'r hyn y gellir ei wneud nawr ac yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r sector ymhellach.

Mae busnesau a chyflogwyr ym mhob un o'r sectorau a astudiwyd wedi mwynhau llwyddiant aruthrol; dyna pam y daeth y sectorau hyn yn bwysig i Gymru. Ni ddylai'r sylw a roddwn i sgiliau cyfredol daflu cwmwl dros y cyraeddiadau hyn na phenderfyniad pawb dan sylw i gwrdd â'r her sydd o'u blaenau.

Proffil o'r Sector

- Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cynnwys 70,000 o bobl (rhan amser a llawn amser) yn cynrychioli 4% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru, gan gyflogi nifer tebyg i'r sector busnes a chyllid.
- Mae'r sector gofal cymdeithasol yn gymhleth. Mae'n cynnwys tri is-sector, sef cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan ddarparu gwasanaethau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn cartrefi, yn y gymuned ac mewn gofal preswyl i amrywiaeth eang o gleientiaid.
- Mae'r cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth gyhoeddus a'r ddarpariaeth annibynnol yn amrywio rhwng meysydd gwasanaeth ac o le i le. Strategaethau comisiynu a gwasanaeth yr awdurdodau lleol a ddatblygwyd o fewn fframweithiau polisi cenedlaethol, sy'n bennaf gyfrifol am y cymysgedd.
- Sgiliau gwaith a gofal cymdeithasol yw'r prif feysydd galwedigaethol, gyda thros chwarter gweithwyr y sector yn gweithio fel cynorthwywyr gofal.
- Arian cyhoeddus sy'n talu am y rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir, ond mae'r sector annibynnol wedi tyfu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf ac amgangyfrifir bod dros hanner y gweithlu bellach yn gweithio yn y sector preifat.
- Mae'r rhan fwyaf o swyddi ym maes gofal cymdeithasol i'w canfod yn Ne Ddwyrain Cymru. Rhwng 1990 a 2000 tyfodd cyflogaeth y sector yng Ngogledd Cymru 30%.
- Ni ellir rhagweld tueddiadau o fewn yr is-sectorau ar hyn o bryd gan y disgwylir i rai ddirywio, ac i eraill dyfu, megis darparu gofal canolradd a gwasanaethau adfer. Serch hynny, drwyddi draw disgwylir i'r sector gofal cymdeithasol dyfu, a hynny'n gyflymach na'r economi Gymreig yn gyffredinol.

Materion yn ymwneud â Sgiliau

- Nid oes gan gyfran sylweddol o weithwyr y sector, yn arbennig yn yr is-sectorau gwasanaethau preswyl, unrhyw gymwysterau ffurfiol.
- Dywed cyflogwyr eu bod yn wynebu anawsterau wrth recriwtio a chredant mai cyflogau isel sy'n gyfrifol hyn, a'r rheswm am y rhain yw ffiniau gweithredu isel. Mae gwaith ymchwil ar y gweill sy'n ceisio asesu'r rhwystrau sy'n atal gweithwyr rhag ymuno â'r sector a pha mor berthnasol yw'r ddarpariaeth er mwyn diwallu angenion cyflogwyr.
- Mae hyfforddiant wedi'i sefydlu'n bur dda yn y sector ond dywed cyflogwyr eu bod yn cael anhawster wrth asesu yn y gweithle, yn enwedig pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu yng nghartref y cleient neu mewn amrywiaeth ehangach o sefyllfaoedd cymunedol. Mae angen sicrhau bod cyfran helaethach o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnal yn arwain at gymhwyster.
- Mae prinder arian ar hyn o bryd i gynorthwyo'r sector annibynnol i sefydlu hyfforddiant galwedigaethol, er i gryn dipyn o weithgarwch ddigwydd i geisio lledaenu arferion da wrth gyflwyno a rheoli hyfforddiant yn y gwaith.
- Adroddir bod cyfraddau swyddi gwag mewn rhai galwedigaethau lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r cyflogwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn bryderus ynghylch y cyfraddau trosiant uchel. Disgwylir y bydd cyflwyno safonau cenedlaethol newydd i'r sector yn arwain at gau rhai cartrefi gofal bach annibynnol. Gall hyn gynrychioli her i'r sector wrth sicrhau bod staff profiadol yn cael eu cadw a bod eu sgiliau a'u profiad yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd eraill.

Newidiadau Cyfredol a Gweithredu ynghylch Sgiliau

- Mae newidiadau sylfaenol yn digwydd o fewn y sector. Yn ôl strategaeth Cymru Well y sector gofal cymdeithasol yw'r allwedd i gyflawni'r nod o gynnwys pobl mewn cymdeithas sy'n cynrychioli newid polisi o dargedu'r meysydd ble mae'r angen mwyaf i gynnwys pobl mewn cymdeithas.
- Ledled y gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae polisi newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i'r newid hwn, a'r hyn sy'n ei sbarduno yw:
  - mwy o bwyslais ar roi grym i'r defnyddiwr a hyrwyddo annibyniaeth lle bo hynny'n briodol;
  - yr angen am hyblygrwydd er mwyn diwallu anghenion y defnyddwyr i ddarparu gwasanaethau yn y cartref, yn y gymuned neu mewn cartref preswyl;
  - gweithio mewn partneriaeth er mwyn plethu gwasanaethau gofal gyda gofal iechyd primaidd a sectorau yn gweithredu i gynnwys pobl mewn cymdeithas ac adfywio cymunedau.
- Mae cyflwyno'r Ddeddf Safonau Gofal a sefydlu Cyngor Gofal Cymru yn rhoi cryn bwyslais ar sgiliau a gallu'r gweithlu. Bydd y Cyngor yn ymgorffori swyddogaethau'r Corff Hyfforddi Cenedlaethol, TOPSS Cymru ac yn dod yn gyfrifol am gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Prif ddyletswyddau'r Cyngor Gofal fydd rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol gan gynnwys sefydlu'r cymwysterau angenrheidiol er mwyn cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol. Bydd y Cyngor Gofal, mewn partneriaeth gyda'r llywodraeth, hefyd yn datblygu Strategaeth Sgiliau, Cymwysterau a Hyfforddiant ar gyfer y sector erbyn y flwyddyn 2002.
- Gwnaed cryn waith ymchwil, ymgynghori a datblygu gan TOPSS Cymru er mwyn paratoi ar gyfer y newid hwn, ac mae rhagor o waith ar y gweill ganddynt, gan gynnwys:
  - defnyddio gwybodaeth ynglŷn â'r gweithlu a chanfod manylion ohoni i ragweld pa sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau y bydd eu hangen ar y sector, ar y cyd â chyflogwyr;
  - cytuno ar fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector gyda chyflogwyr gan gynnwys y rhai y bydd eu hangen er mwyn ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol;
  - cytuno ar lwybrau gyrfa o fewn y sector gyda chyflogwyr;
  - cynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu Strategaethau Adnoddau Dynol a fydd yn cwrdd â gofynion eu strategaethau gwasanaeth;
  - datblygu'r Strategaeth Safonau Galwedigaethol ymhellach;
  - gwaith paratoi ar gyfer datblygu'r Strategaeth Sgiliau, Cymwysterau a Hyfforddiant gan gynnwys creu Strategaeth ar gyfer Ymuno â'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.
- O ystyried bod newidiadau sylweddol ar y gorwel, daw'r union effaith ar yr angen am sgiliau o fewn y sector yn gliriach wrth i strwythurau a strategaethau newydd gael eu datblygu;
- Mae'r argymhellion canlynol, felly, yn canolbwyntio ar y camau y bydd angen i gyrff perthnasol eu cymryd er mwyn sicrhau'r adnoddau a'r gefnogaeth y bydd ei hangen i sicrhau y caiff y weledigaeth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn y ganrif hon ei gwireddu.

Matrics themâu ac argymhellion

Rhif Thema	Rhif Arg.	Cam Gweithredu	Amserlen	Prif Bartneriaid
1	1a	Dylid mabwysiadu strategaeth er mwyn gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd, maint, natur a chymhlethdod y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys gwahaniaethau rhanbarthol. Bydd hyn o gymorth wrth gynllunio'n strategol ar gyfer cyllid addas ar ôl 16 oed i gwrdd ag anghenion y sector o ran sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau.	Ebrill 2001	TOPSS Cymru/ CETW/ Cynulliad
	1b	Dylid dyfeisio strategaeth er mwyn cynorthwyo CCETS i ddeall y sector yn lleol er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth briodol i ddiwallu angenion y sector o ran sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau, fel a amlinellwyd yn y Strategaeth Ymuno â'r Gweithlu a'r Strategaeth Sgiliau, Hyfforddiant a Chymwysterau.	Ebrill 2001	TOPSS Cymru/ CLILC/ AB/CETW
2	2a	Mae angen cefnogi'r Strategaeth Sgiliau, Hyfforddiant a Chymwysterau trwy sicrhau: • y caiff dulliau effeithiol o asesu a dilysu yn y gwaith eu datblygu; • y caiff dyfarniadau eu datblygu mewn partneriaeth â'r Corff Hyfforddi Cenedlaethol yng Nghymru.	parhaus	Cyrff dyfarnu/ TOPSS
	2b	Cydgysylltu a chydweithio mwy er mwyn sicrhau bod y sector yn gallu manteisio ar amrywiaeth o Ddyfarniadau, darparwyr hyfforddiant a chanolfannau asesu o'r ansawdd priodol.	parhaus	ACCAC/ Cyrff dyfarnu/ CETW/TOPSS
3	3a	Mae angen i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau'r sector sicrhau bod gan eu gweithwyr sgiliau a chymwysterau addas ar gyfer eu gwaith.	parhaus	Pawb
	3b	Grŵp Sector Cymdeithasol Cyngor Corff Hyfforddi Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Sgiliau er mwyn Cynnwys Pobl mewn Cymdeithas	parhaus	Cyngor Corff Hyfforddi Cenedlaethol Cymru
4	4	Ehangu'r drafodaeth ynglŷn â sgiliau a chymwysterau gyda chyflogwyr y sector annibynnol a hyrwyddo rhagor o gydweithio er mwyn delio â'r materion hyn	parhaus	TOPSS Cymru
5	5	Codi proffil y gwasanaethau gofal fel dewis cadarnhaol o ran gyrfa	Diwedd 2002	Gyrfaoedd/ EBLau/ TOPSS Cymru
6	6	Cynnal ymchwil ehangach ynglŷn â thueddiadau'r farchnad yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol	Ebrill 2002	Cynulliad

Nodiadau

Cydnabyddiaeth

Hoffa York Consulting ddiolch pob un a wnaeth cyfraniad I'r astudiaeth hon, gan gynnwys cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol a chydweithwyr yn swyddfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru, NTO, TECiau a'r gymuned archwilio yng Nghymru.

Safbwyntiau York Consulting Cyfyngedig yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn.
Jo Cutter, August 2000.